# JONES, DANIEL (1725? - 1806), bardd

**Enw:** Daniel Jones
**Dyddiad geni:** 1725?
**Dyddiad marw:** 1806
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** David Jenkins

brodor o Riwabon a dystiodd na chafodd unrhyw addysg ffurfiol. Ceir detholiad o'i faledi a'i garolau yn *Cynulliad Barddorion i Gantorion sef Carolau, Cerddi, ac Englynion*, cyfrol o farddoniaeth a olygodd ef ac a gyhoeddwyd yn 1790. A barnu oddi wrth y cerddi hyn profodd dlodi mawr yn ei ddydd, bu'n dda ganddo ar dro gael derbyn nawdd teuluoedd Myddelton o Gastell y Waun, a Llwydiaid Trefor. Mae'n amheus mai ef a gyfieithodd i'r Gymraeg ran o lyfr y Dr. John Gill *Exposition of the Revelation of St. John* fel y dywedir yn *Llyfryddiaeth Sir Ddinbych*, iii, 67.

Yn ôl Llsgr. N.L.W. 325 (39) 'roedd dros ei 80 mlwydd oed pan fu farw tua diwedd 1803, ond yn ôl cofnodion swyddogol Esgobaeth Llanelwy ar 10 Mawrth 1806 y claddwyd ef o'r elusendy yn Rhiwabon.

## Awdur

**Dr David Jenkins**, (1912 - 2002)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu